

# Rhagor o dystiolaeth ysgrifenedig yn dilyn sesiwn graffu blynyddol CNC

## Cwestiynau Coedwigaeth

1. *Yn dilyn cwestiwn gan Janet Finch Saunders AS ynghylch faint o dir yr oedd CNC wedi'i brynu a faint o goed mae hynny'n ei olygu mewn gwirionedd, ymatebodd Clare Pillman, Prif Weithredwr CNC i ddweud ein bod wedi prynu 75 hectar o goetir yn ystod y 12 mis diwethaf. Nododd y byddai'n rhoi manylion o ran niferoedd, a gallwn gadarnhau bod 75 hectar o waith plannu yn golygu oddeutu 150,000 o goed.*
2. *Yna, gofynnodd Mabon ap Gwynfor AS pa ganran o'r coed hynny sy'n coed conwydd neu llydanddail, a beth yw pwrpas y gwaith plannu hwnnw - ai ar gyfer cnydau neu ar gyfer dal a storio carbon.*

*Gan ddefnyddio'r canran sy'n hysbys o'r rhaglen a gwblhawyd yn 2022/23, sy'n nodweddiadol, y canrannau yw 62.5% o goed llydanddail a 37.5% o goed conwydd. Pwrpas y plannu yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR). Dewiswyd mathau o goed conwydd a choed llydanddail i greu coetir sy'n briodol ar gyfer y safle ac sy'n cyflawni cydbwysedd o fuddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng nghyd-destun newid hinsawdd, h.y. SMNR. Er bod y coed llydanddail yn tueddu i gyflawni mwy ar gyfer yr amgylchedd a'r coed conwydd yn cyflawni mwy o ran yr economi drwy gynhyrchu pren, mae pob coeden yn cyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac rydym yn edrych ar y coetir yn ei gyfanrwydd.*

## Perthynas CNC â Fujitsu

3. *Ar hyn o bryd mae CNC yn talu Asiantaeth yr Amgylchedd i gael defnyddio eu Gwasanaeth Rhybuddio Llifogydd a ddatblygwyd gan Fujitsu. Rydym wrthi'n datblygu ein Gwasanaeth Rhybuddio Llifogydd pwrpasol ein hunain, y bwriedir iddo fynd yn fyw yn ddiweddarach eleni.*